EUR-05-01(p5)

**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **17 Hydref 2001** |
| **Amser** | **9.00am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Pwyllgor 3** |

**Teitl: Cynulliad Cenedlaethol y CPMR, Porto – 20/21 Medi**

**Diben:**

**Gwybodaeth am y Cynulliad Cenedlaethol**

**Cefndir:**

Gwnaeth y Cynulliad gais am gael ymaelodi â Chynhadledd y Rhanbarthau Arfordirol Ymylol – y CPMR - (a chomisiwn daearyddol Bwa'r Iwerydd), yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, ym mis Mehefin. Cafodd y cais ei gymeradwyo gan fiwro gwleidyddol y CPMR ym mis Gorffennaf. Mae'r Cynulliad wedi talu tâl aelodaeth pro-rata o 15,503 ewro ar gyfer gweddill 2001.

**Y Cynulliad Cyffredinol:**

Nid oedd yn bosibl i Brif Weinidog Cymru fynychu'r Cynulliad Cenedlaethol ond cafodd ei gynrychioli ar lefel swyddogol gan Bennaeth Swyddfa Brwsel.

Amgaeir agenda'r Cynulliad Cyffredinol. Roedd cynrychiolwyr o 112 o ranbarthau o 19 o wledydd, ynghyd ag 16 corff rhanbarthol.

Cafodd y Cynulliad ei groesawu fel aelod newydd yng nghyfarfod Bwa'r Iwerydd. Estynnwyd dymuniadau gorau'r Prif Weinidog a'r Cynulliad trwy gynrychiolydd y Cynulliad a fynegodd hefyd awydd y Cymry i gyfrannu at waith da'r Comisiwn yn y blynyddoedd i ddod.

Yng nghyfarfod llawn y CPMR, cynhaliwyd dwy sesiwn a oedd o ddiddordeb arbennig i agenda'r Cynulliad.

<u>Cydlyniant (*cohesion*) a pholisi rhanbarthol</u> – Mae'r CPMR wedi paratoi ei ymateb i'r Adroddiad ar Gydlyniant (yn amgaeedig) fel man cychwyn trafod. Ar ôl cyflwyniad ar oblygiadau'r adroddiad,

gwahoddwyd cynrychiolydd y Cynulliad i gyfrannu at y drafodaeth (mae nodiadau ei araith yn amgaeedig). Nid yw penderfyniadau'r CPMR yn clymu'r Cynulliad mewn unrhyw ffordd, ond seilir eu syniadau ar wybodaeth gadarn a dylem eu defnyddio i fwydo'n trafodaethau ni.

Llywodraethu, Dyfodol Ewrop a rôl y Rhanbarthau – clywyd gan Arlywydd Portiwgal (Jorge Sampaio); Comisiynydd Rhanbarthau'r UE (Michael Barnier); Llywydd-Weinidog Wallonia (Van Cauwenbergue); Is-Lywydd Senedd Ewrop (Jose Pacheco Pereira) ac awdur de facto Papur Gwyn y Comisiwn ar Lywodraethu, Jerome Vignon. Y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- Arlywydd Sampaio – y gamp yw sicrhau statws arbennig gyda sêl bendith yr UE i ranbarthau democrataidd heb danseilio'r Aelod-Wladwriaeth;
- Comisiynydd Barnier – yn y drafodaeth ar ehangu'r UE, nid oes modd gwahanu cydlyniant ac amaethyddiaeth. Rhaid wrth drafodaeth wleidyddol drylwyr cyn dod i benderfyniadau terfynol, nid y ffordd arall rownd. Rhaid rhoi blaenoriaeth i'r rhanbarthau mwyaf eu hangen a rhaid trin rhanbarthau'n gydradd (h.y. rhaid peidio â rhagfarnu yn erbyn y rheini sydd ag Amcan Un os yw eu hangen yn parhau). Nid GDP yw'r unig ffactor – rhaid ystyried ffactorau eraill: poblogaeth denau, a yw'n ynysig, a yw ar y cyrion, problemau llorweddol fel yr amgylchedd. Rhaid wrth ddatganoli hefyd, felly mae llywodraethu yn elfen bwysig o'r drafodaeth. Dylai Ewrop fod yn fwy na marchnad, a gall rhanbarthiaeth wrthweithio'r syniad o'r 'super'-wladwriaeth.
- Llywydd-Weinidog Van Cauwenbergue – yn credu, oherwydd grym sefydliadol, mai 'brodyr bach' yr UE yw rhanbarthau, heb yr hawl i dorri eu cwys eu hunain. Yn credu y dylid rhannu cymwyseddau rhwng rhanbarthau a'r Aelod-Wladwriaethau.
- Jerome Vignon – roedd y Papur Gwyn ar Lywodraethu, yn brawf gweladwy o'r modd y gall llywodraeth ranbarthol gyfrannu at ddatblygiad yr UE. Rhaid i'r Comisiwn gydnabod rôl cyfranwyr allweddol ym mywyd yr UE (mae'r bartneriaeth rhwng CPMR a DG Regio, er enghraifft, yn cryfhau). Mae angen cryfhau Pwyllgor y Rhanbarthau. Mae'r Comisiwn yn awyddus i glywed ymateb Rhanbarthau Ewrop i'r drafodaeth hon.

**Y Dyfodol**

- Gofynnir i aelodau gadw'u bysedd ar byls gwaith y CPMR trwy fynd at ei gwefan yn: www.crpm.org
- Mae cynrychiolydd y Cynulliad ym Mrwsel yn cwrdd â'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am Fwa'r Iwerydd (Patrick Anvroin) ar 16 Hydref i drafod cyfraniad y Cynulliad;
- Amgaeir calendr cyfredol y CPMR;
- Bydd Xavier Gizard, Ysgrifennydd Cyffredinol y CPMR, yn ymweld â Chaerdydd ar 21/22 Ionawr gan obeithio cwrdd ag aelodau'r pwyllgor hwn.

**Cyfarwyddiaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol**

Desmond Clifford